



Ysgol Pen-y-Garth
Heol Tircoch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262
Ffacs – 029 20712259
E-bost – YGPenYGarth@valeofglamorgan.gov.uk

Pennaeth – Mrs Iona Edwards

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn cadw'n iach a diogel.

Yn dilyn fy llythyr ar 4ydd o Fehefin, hoffwn eich diweddarau ynglyn â rhai o'r newidiadau sydd ar y gweill i gefnogi eich plant. O'r 29ain o Fehefin byddwn yn croesawi'n disgyblion yn ôl i ail gysylltu gyda'r Ysgol ac i weld eu ffrindiau unwaith eto

Dros yr wythnosau diwethaf rydyn wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu cynlluniau i sicrhau bod ysgolion yn dychwelyd yn ddiogel. Mae nifer o newidiadau pwysig y mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol ohonynt ac rwyf wedi'u rhestru isod:

Diwrnodau mewn ysgolion

Mae'r broses dychwelyd i'r ysgol yn rhan o strategaeth 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi' Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar les y disgyblion. Er mwyn cyfyngu ar nifer y disgyblion sydd ar y safle a gwneud yr amgylchedd mor ddiogel â phosibl, bydd plant yn cael eu gwahodd i'r ysgol ar ddiwrnodau penodol a byddant gyda'u cyfoedion mewn grwpiau o 8 neu lai am sesiwn hanner diwrnod. Yn anffodus, nid allwn dderbyn ceisiadau am ddiwrnodau penodol oherwydd y logisteg sydd dan sylw.

Mae'n cynlluniau i ail-agor Ysgol Pen-y-Garth wedi cael eu cymlethu yn fwy yn dilyn cyhoeddiad yr awdurdod lleol am y gwaith o adnewyddu to yr Adran Fabanod sydd i'w ddechrau ar y 22ain o Fehefin. Mae'n capasiti i dderbyn disgyblion yn ôl yn mynd i fod lawer yn llai o ganlyniad. Mi fydd yr holl Adran Fabanod ar gau a bydd holl ddisgyblion o'r Derbyn i Flwyddyn 2 yn cwrdd yn y Neuadd Chwaraeon ar y diwrnodau penodol. Wedi cwrdd a Swyddogion y Fro ddydd Llun a ddoe, maent wedi fy sicrhau y byddant yn gwneud holl ardal y Babanod yn ddiogel fel bod pob un o ddisgyblion a staff yr Ysgol yn ddigon pell o'r gwaith adeiladu. Cewch fwy o fanylion am hyn wythnos nesaf.

Ni fydd unrhyw oblygiadau os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn danfon eich plant i'r Ysgol. Dylai plant fynychu ond os ydych yn teimlo'n gyfforddus iddynt ddod. Mae'n hanfodol hefyd nad ydych ond yn anfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn iach. Os ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o salwch, yn enwedig os ydynt yn datblygu tymheredd uchel, peswch parhaus neu golli blas/arogll, yna cadwch nhw gartref.

Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn parhau i dyfu wrth i'r rheolau ddechrau llacio mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn sicrhau diogelwch yr holl staff a disgyblion, a chadw at y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar ymbellhau cymdeithasol, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw gofrestradau newydd ar gyfer gofal plant o 22ain o Fehefin. Gall unrhyw





Ysgol Pen-y-Garth

Ysgol Pen-y-Garth
Heol Tiroch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262

Ffacs – 029 20712259

E-bost – YGPenYGarth@valeofglamorgan.gov.uk

Pennaeth – Mrs Iona Edwards

deuluoedd sydd eisoes yn defnyddio'r ddarpariaeth hon barhau i wneud hynny tan ddiwedd y tymor. Dylai rhieni sy'n gweithio mewn ysgolion gysylltu â'r ysgol i holi am ofal plant.

Bydd darpariaeth gofal plant yn gweithredu o 8.30 tan 4.30 yn neuadd Ysgol Pen-y-Garth, yn dibynnu ar argaeledd staff. Os yw eich plentyn yn defnyddio darpariaeth gofal plant, dylech fod yn ymwybodol na fydd modd iddi/iddo symud i ddarpariaeth ysgol ar yr un diwrnod, nac i'r gwrthwyneb, am resymau iechyd a diogelwch.

Darpariaeth Feithrin

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu darparu ar gyfer plant meithrin sydd ar y safle yn nhymor yr haf, o ystyried ffactorau risg COVID-19, logisteg ein safle/staff a'r angen i gadw at y canllawiau.

Cinio Ysgol

Mae'r awdurdod lleol yn atal y gwasanaeth prydau ysgol yn ystod tymor yr haf er mwyn lleihau unrhyw risgiau mewn ysgolion. Fodd bynnag, bydd ffrwythau ffres ar gael os oes angen byrbryd ar blant. Os yw eich plant gyda ni dros amser cinio (yn mynychu'r Hwb), bydd angen iddynt ddod â phe cyn cinio. Bydd y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael talebau i brynu bwyd ar gyfer amseroedd bwyd. Ni fyddwn chwaith yn gallu cynnal clybiau brecwast neu ar ôl ysgol yn ystod tymor yr haf am resymau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â rheoli COVID-19.

Trafnidiaeth

Gofynnir i rieni ddefnyddio dulliau teithio llesol i ddod â'u plant atom ar eu diwrnodau ysgol. Felly os gallwch gerdded, mynd ar sgwter, neu feicio i'r ysgol gofynnwn i chi wneud hynny. Os nad yw hynny'n bosibl, gofynnwn i chi ddod â'ch plant i'r ysgol yn y car.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod trafndiaeth ar gael i'r rhai sy'n gymwys ac nad oes ganddynt ffordd arall o gyrraedd yr ysgol, fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na allwn warantu y gellir bodloni'r holl anghenion oherwydd y gofynion ymbellhau cymdeithasol ar drafnidiaeth.

Cyfathrebu

Cofiwch fod cyngor ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas â COVID-19 yn parhau i ddatblygu a gallai'r Rhaglen Profi Olrhain Diogelu effeithio ar gapasiti staff. Yn anochel, gallai hyn arwain at newid cynlluniau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn gynted â phosibl, ond yn y cyfamser os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, dilynwch ni ar Trydar cymdeithasol, Trydar ar wefan yr Ysgol a gwefan Cyngor Bro Morgannwg i gael diweddiadau wrth iddynt ddod ar gael.

Dysgu o bell a dychwelyd i'r Ysgol

Bydd dosbarthiadau unigol/ grwpiau blynyddoedd yn yr Ysgol ar yr un diwrnod (gweler isod). Ni fyddwn yn gosod tasgiau adref ar y diwrnodau y bydd dosbarth/ blwyddyn yn yr Ysgol ond bydd hyn yn parhau ar y dyddiau eraill.



Capasiti ar gyfer yr Ysgol (seiliedig ar uchafswm o 30%) yw 108 o ddisgyblion. Mae'n rhaid i ni gymryd ffactorau eraill i ystyrieath (ee nifer y tai bach a chyfleusterau golchi dwylo, mynediadau, cyfyngiadau symud o le i le yn ogystal a'r cyfyngiadau oherwydd yr adeiladu).

Dyma amserlen wythnosol o 29/6/20 (am y 3 wythnos nesaf – wythnos 4 i'w gadarnhau):-

Llun	B6 Tywi (Miss Evans); B4 Ogwr (Mrs Griffiths); pawb ym M1 - 95 disgybl
Mawrth	B6 Ystwyth (Miss Vaughan); B4 Taf (Mr Prosser); pawb yn y Derbyn - 96 pupils
Mercher	Glanhau trylwyr a disgyblion yr Hwb yn unig
Iau	B5 Tawe (Mr Hughes); B3 (Menai) Mrs Richards; pawb ym M2 - 93 disgybl
Gwener	B5 Teifi (Mrs Ryall); B3 (Nedd) Miss Kendall - 49 disgybl.

- Bydd pob disgybl yn derbyn manylion amser dechrau a chasglu mewn ebost ar wahan
- Bydd sesiynau dosbarthiadau'r babanod i gyd yn cael eu cynnal yn y neuadd chwaraeon (mannau mynediad ac amseroedd i ddilyn) gyda gorsaf hylendid wrth y mynediad
- Bydd pob sesiwn CA2 yn cael eu cynnal yn yr 8 dosbarth Adran Iau gyda phob blwyddyn yn defnyddio bloc toiledau eu hunain
- Bydd pob un o'r Adran Iau yn dod i mewn drwy glwyd yr Ysgol fel arfer (amserau gwahanol i'r carfannau)
- Bydd y llwybr i fyny at glwyd yr ysgol a'r iard wedi ei farcio i ddangos disgwyliadau ymbellhau cymeithasol
- Bydd pob disgybl yr Adran Iau yn cael mynediad i'w ystafell drwy'r drws tân. Bydd y coridorau ond yn cael eu defnyddio i fynd i'r tai bach
- Mae gan bob dosbarth yr Adran Iau gyfleusterau hylendid wrth ddrws tân y dosbarth
- Dim ond un desg ac un cadair i bob plentyn fydd yn nosbarthiadau'r Adran Iau
- Bydd arwyddion, posteri a marciau llawr ymhob man i ddangos disgwyliadau
- Bydd yr Ysgol yn cael ei glanhau ddwywaith y dydd ac yn cael ei glanhau yn fwy trylwyr (deep clean) dydd Mercher.

Mae'r pwyslais heb os ar gyfer yr wythnosau nesaf ar hyrwyddo lles y disgyblion, trafod eu gwaith a'u profiadau ac ail gydio gyda bod yn yr Ysgol. Bydd pob aelod o'n staff wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar sut i gefnogi disgyblion wrth ddychwelyd i'r Ysgol erbyn Mehefin 26ain (hyfforddiant a drefnwyd gan dîm ymddygiad Ysgol Y Deri). Rwyf yn hyderus y bydd gennym y sgiliau angenrheidiol i gefnogi a chroesawi'n disgyblion nol i'r normal newydd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bob un ohonoch a'ch plant unwaith eto wrth i ni fynd ar y daith hon gyda'n gilydd. Mae eich cefnogaeth wedi bod yn ffynhonnell o gryfder i staff sy'n parhau i wneud



Ysgol Pen-y-Garth

eu gorau glas i sicrhau eu bod yn cynnig y ddarpariaeth orau ar gyfer dysgu a lles adref ac yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod heriol hwn. Diolch o galon.

Yn ddiffuant,

Iona Edwards

Ysgol Pen-y-Garth
Heol Tircoch, Penarth CF64 2QN

Ffôn – 029 20700262

Ffacs – 029 20712259

E-bost – YGPenYGarth@valeofglamorgan.gov.uk

Pennaeth – Mrs Iona Edwards

